| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR SAFONAU** |
| **DYDDIAD** | **16 IONAWR 2012** |
| **TESTUN** | **HYFFORDDIANT AR Y CÔD YMDDYGIAD** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR YR HYFFORDDIANT A CHEISIO BARN AM Y TREFNIADAU AR GYFER Y CYNGHORAU NEWYDD** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO** |

1. Rhoddodd y Pwyllgor gymeradwyaeth i ddeunydd hyfforddi ar y côd ymddygiad yn Ebrill 2011. Yn dilyn ymlaen o hynny cynhaliwyd sesiwn hyfforddi i aelodau'r Cyngor Sir ym Mai 2011. Mynychodd 18 aelod ac roedd yr adborth yn gyffredinol yn gadarnhaol.

2. I baratoi ar gyfer y cyngor newydd o Fai 2012 ymlaen bu grŵp bychan o swyddogion monitro yn gweithio efo Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i baratoi deunydd hyfforddi. Mae'r deunydd a baratowyd yn adeiladu ar syniadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor hwn (ymysg eraill) ac yn cynnwys cyflwyniad cyffredinol i'r côd gan ddefnyddio Powerpoint, DVD o gyfweliad gyda'r Ombwdsmon ac ymarferion yn seiliedig ar y rhai a ddatblygwyd ar gyfer hyfforddiant mis Mai diwethaf.

3. Y bwriad ydy i'r deunydd hyfforddi gael ei ddosbarthu i bob cyngor sir a'i gyflwyno i aelodau gan swyddogion y cyngor mewn sesiwn hanner diwrnod yn dilyn etholiadau fis Mai nesaf.

4. Bu swyddog o Unllais Cymru hefyd yn trafod efo'r swyddogion monitro ynglyn ag addasu'r deunydd i'w wneud yn addas i gynghorau cymuned. Y bwriad ydy newid rhywfaint ar yr ymarferion i roi naws cyngor cymuned iddynt ac yna trefnu rhaglen o gyflwyniadau hyfforddi ar hyd a lled y wlad yn benodol ar gyfer cynghorau cymuned. Yn naturiol, dim ond y cynghorau cymuned sy'n aelodau o Unllais Cymru fydd yn derbyn gwahoddiad i'r digwyddiadau hyn.

5. Oherwydd bod gan swyddogion monitro gyfrifoldebau statudol dros safonau cynghorwyr cymuned byddai'n fwriad gennyf gydweithio efo Unllais Cymru i sicrhau bod pob cyngor cymuned o fewn Gwynedd yn cael cyfle i fynychu hyfforddiant ar y côd ymddygiad yn ystod y 12 mis yn dilyn yr etholiadau. Bydd hyn, mae'n debyg, yn golygu trefnu sesiynau ychwanegol at y rhai a drefnir gan Unllais Cymru, gan ddefnyddio'r un deunydd hyfforddi.

6. Yn 2008 llwyddwyd i gyflwyno hyfforddiant i bob aelod o'r cyngor sir, ond bryd hynny roedd y côd ymddygiad yn un newydd. Yn 2012 ni fydd unrhyw newid wedi bod i'r côd er bod y canllawiau wedi eu diweddaru. Gofynnir am farn y Pwyllgor a ddylid ymdrechu i gyflwyno'r hyfforddiant i bob aelod o'r cyngor sir ynteu dim ond i'r rhai a etholir o'r newydd.

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor:

a) Nodi a derbyn y trefniadau ar gyfer hyfforddi cynghorwyr ar y côd ymddygiad yn dilyn etholiadau 2012.

b) Gyflwyno unrhyw syniadau ychwanegol ar raglen hyfforddi ar y côd ymddygiad.